

**YMCHWILIAD “EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR
GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG”**

BRÏFF DRAFFT – 23 Ionawr 2018

(Fersiwn 1)

A	<p><u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu?</u></p> <p>Mae nifer o aelodau wedi codi cwestiwn ynghylch a ydym yn glir os oes effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion wedi dod yn sgil y datblygiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn ysgolion y sir – boed yn ddatblygiadau o adeiladau newydd i ysgolion, ac/neu yn ddatblygu ysgolion newydd. Mae'r cwestiynu ynghylch effaith y ddarpariaeth newydd ar ansawdd yr addysg a phrofiad disgyblion, gan holi a yw'r buddsoddiad ariannol wedi arwain at wella'r ansawdd, ac a oes ymarfer da neu wersi i'w dysgu wrth i'r rhaglen ddatblygol barhau.</p> <p>Mae cryn fuddsoddiad wedi bod ar ddatblygu adeiladau addysgol yng Ngwynedd yn ddiweddar. Ymysg y datblygiadau mae:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ysgol yr Hendre, Caernarfon. Agorwyd Ebrill 2012 yn dilyn buddsoddiad o £9,326m. Mae'r ysgol yn cynnig addysg gynradd i hyd at 450 o ddisgyblion.• Ysgol Craig y Deryn – ysgol ardal ar gyfer disgyblion oedran cynradd sy'n gwasanaethu ardal Brynchrug, Llanegryn, Llwyngwril ac Abergynolwyn. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2013 yn dilyn buddsoddiad o £5.4 miliwn. <p>(Bu cryn waith uwchraddio yn Ysgol Penbryn, Tywyn hefyd i dderbyn plant ardal Aberdyfi, ac yn Ysgol Dyffryn Dulas (Corris) ac Ysgol Pennal hefyd, ac mae'r ysgolion hyn wedi eu ffedereiddio.)</p> <ul style="list-style-type: none">• Buddsoddiad ar welliannau ac adnewyddiadau yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn yn 2013.• Ysgol Bro Llifon – ysgol ar gyfer disgyblion oedran cynradd sy'n gwasanaethu ardal Groeslon, Carmel a Fron. Agorwyd yr Ysgol yn Hydref 2015 yn dilyn buddsoddiad o £4.84miliwn.• Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth. Agorwyd Hydref 2016. Gwerth y buddsoddiad oedd £13miliwn (ariannwyd ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru) ac mae'n cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol i hyd at 100 o blant. Noder fod y ddarpariaeth hefyd yn cynnwys uned breswyl egwyl fer.• Buddsoddwyd £4.3m a sefydlwyd ysgol newydd 3-16, Ysgol Bro Idris, yn Nolgellau ar 6 safle. Agorodd yr ysgol yn Medi 2017. <p>Mae'r rhaglen yn parhau gyda datblygiadau pellach eisoes ar y gweill yn ardaloedd Y Bala a Bangor.</p>
---	--

**YMCHWILIAD “EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR
GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG”**

BRÏFF DRAFFT – 23 Ionawr 2018

(Fersiwn 1)

	<p>Gyda’r holl waith datblygol sydd wedi bod yn digwydd hyd yma, mae’n amserol i edrych ar beth yw effaith (os o gwbl) yr adeiladau newydd yng Ngwynedd gan gymryd y cyfle i adnabod unrhyw ymarferion da ac unrhyw wersi/addasiadau ar gyfer y datblygiadau i’r dyfodol.</p> <p>Byddai ymchwiliad i’r maes yn edrych ar effaith datblygiadau / adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar yr elfennau a ganlyn, sef</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Ansawdd yr addysg ➤ Canlyniadau addysgol ➤ Profiad y disgyblion yn yr adeiladau newydd ➤ Gwerth am arian
B	<p><u>Nod yr Ymchwiliad</u></p> <p>Y prif gwestiwn i’w gyfarch fydd</p> <p>‘Beth yw effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg disgyblion?’</p> <p>Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>Mae angen datblygu y briff yn llawn. Bydd hynny yn cael ei wneud os yw’r egwyddor ar gyfer yr ymchwiliad yn cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23/01/2018</i> -
C	<p><u>Cefndir</u></p> <p>Manylion am y sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd – <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i></p> <p>-</p>
CH	<p><u>Arfer Da a Gwersi i’w Dysgu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
D	<p><u>Casglu Tystiolaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
DD	<p><u>Dadansoddiad</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
E	<p><u>Llunio’r Adroddiad</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>I’w sefydlu fel rhan o’r briff llawn.</i>
F	<p><u>Cynllun Gweithredu</u></p>

**YMCHWILIAD “EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR
GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG”**

BRÏFF DRAFFT – 23 Ionawr 2018

(Fersiwn 1)

	- <i>Yn ddibynnol ar ganlyniadau yr ymchwiliad</i>		
FF	<u>Tracio Cynnydd</u> - <i>Yn ddibynnol ar ganlyniadau yr ymchwiliad.</i>		
G	<u>AMSERLEN</u> - <i>I'w sefydlu fel rhan o'r briff llawn</i>		
	Beth	Arwain	Dyddiad
1			
2	-		
4			
5			
5			
6			